
# Ysgol Bro Dyfrdwy

## ‘Yn y llaw fach, mae’r holl fyd’



# Crynodeb o Gwricwlwm Bro Dyfrdwy




# Croeso i Ysgol Bro Dyfrdwy





# Llais ein plant

Mae llais y disgybl yn ran anatod o'n cwriwcwlwm yma yn Ysgol Bro Dyfrdwy. Mae galluogi pob disgybl i ddisgleirio, ac i fod yn ganolbwynt eu taith dysgu yn hanfodol. Yn ganolog i'n cwricwlwm mae pob un o'n disgyblion. Mae eu mewnbwn a'u syniadau yn allweddol i lunio ein cynlluniau a llywio ein trywydd dysgu o dymor i dymor. Rhown ystyriaeth fanwl i gyd-gynllunio o fewn ein dosbarthiadau gan gadw mewn cof anghenion a diddordebau ein dysgwyr. Yn ogystal, mae'r 4 Diben yn sefyll yn gadarn wrth ein tywys drwy ein themau ac arwain ein disgyblion i fod yn unigolion parod i wynebu'r byd, ac i fwynhau wrth ddysgu.

# 'Yn y llaw fach, mae'r holl fyd'

# Ein gweledigaeth




# Y pedwar diben

- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Unigolion iach, hyderus

# Beth sy'n bwysig i ni yn Ysgol Bro Dyfrdwy?

Yr Iaith Gymraeg

Lles ac hapusrwydd

Bachu ar frwdfrydedd

Y gymuned yn rhan o fywyd yr ysgol

Cyfoethogi cyfleoedd

Annog annibynniaeth

Parch ymysg disgyblion a staff

# Ein Gweledigaeth

Wrth lunio gweledigaeth ysgol, mae'n hanfodol bod llais ein disgyblion a'r gymuned yn flaenllaw, Felly, fe benderfynon ni greu holiadur ar gyfer ein disgyblion, rhieni, staff a'r llywodraethwyr. Braf iawn oedd clywed barn cymuned ein hysgol.
Dyma wnaethom ni ddarganfod...

## Cwricwlwm i Gymru – Holiadur y Plant

*"Dylsen ni wybod mwy am gasglu sbwriel, edrych ar ôl anifeiliaid, ailgylchu, plannu blodau a llysiau, ailgylchu , tymheredd, planhigion, coed , nwyon ty gwydr, pwysigrwydd plannu coed a chompost."*

*"Rydan ni'n mwynhau bod tu allan yn yr ysgol goedwig, mynd am dro i'r llwybr rheilffordd, cynnu a choginio tân tu allan. Rydym eisiau dysgu am wledydd eraill fel India a China a chestyll Cymru.*

*"Fasen ni'n hoffi cymryd rhan mewn twrnament chwaraeon, tripiau fel Llangrannog, coginio, mynd am dro, cael anifeiliaid anwes yn yr ysgol"*

2. Pa sgiliau sydd yn bwysig i chi wella yn yr ysgol?
Rhagor o Fanylion

9
Ymatebion

Ymatebion Diweddaraf
*"Cyd chwarae, gweithio, trio ein gorau glas, Mathemateg, bod yn gra...*
*"mathemateg sgwennu clwm darllen saesneg"*
*"Darllen yn cymraeg , eistedd ar y cadair, gwrando, gwaith amser, siar...*

3. Pa fath o brofiadau ydach chi'n mwynhau yn yr ysgol?
Rhagor o Fanylion

*"Rydan ni eisiau gwella sgiliau mathemateg, sillafu, coginio, sut i ofalu am ein hunain, nofio a diogelwch dŵr, canolbwyntio a sgiliau i helpu ni i gael gwaith pan yn oedolion."*

*"Rydan ni'n mwynhau bod tu allan yn chwarae, y cywion bach, garddio, ardal mathemateg, gwaith coed, chwarae gyda dosbarthiadau eraill, chwarae hefo ffrindiau, ysgol goedwig, ipads, swyddfa sgwennu, addysg gorfforol"*



*"Mae'n bwysig i ni ddysgu sut i gyd chwarae, gweithio, trio ein gorau glas, mathemateg, iaith, bod yn greadigol, gwrando, tacluso, bod yn garedig, darllen"*

# Cwricwlwm i Gymru – Holiadur Rhieni

Pa sgiliau sy'n bwysig i'ch plant ddatblygu?

- Hyder a'r gallu i ddyfalbarhau.
- Llythrennedd, rhifedd, digidol a chyfathrebu.
- Annibynniaeth a sgiliau'r meusydd dysgu.

Pa brofiadau dymunwch i'ch plant/plentyn eu derbyn yn yr ysgol?

- Profiadau digidol, profiadau sy'n rhoi'r cyfle iddynt fod yn ddysgwyr annibynnol.
- Hanes yr ardal leol. Mae'r ysgol yn darparu nifer eang o brofiadau i'r plant felly mae hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb!

Pa leoliadau, digwyddiadau neu bobl lleol ydech chi'n meddwl y dylai ein disgyblion ddysgu amdanynt, neu ymweld a hwy?

- Y llyfrgell leol.
- Ifor Williams a hanes y ffatri, Eglwys Llangar a'r hen reilffordd.
- Hanes lleol a Chymru gyfan. Hanes cymeriadau dylanwadol yn ein hanes ni fel y Cymry e.e. Mari Jones, Hedd Wyn a'i gartref yn Yr Ysgwrn a dysgu hen chwedlau Cymreig.

YSGOL BRO DYFRDWY

*"Diolch i'r staff am eu holl waith wrth gynllunio at Y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ardal yn lwcus iawn o'r ysgol."*

# Cwricwlwm i Gymru – Holiadur Rhieni

Pa ddathliadau dylai eich plant fod yn ymwybodol ohonnynt yn eich barn chi?

- Dydd Gŵyl Dewi a dathliadau Cymreig eraill.
- Diwrnod y llyfr a dathliadau o fyd chwaraeon e.e. Yr Olympics, Y Paralympics, Y Chwe Gwlad ac ati.
- Dathliadau crefyddol ar hyd a lled Y byd i gynyddu ymwybyddiaeth o gredoau eraill.

Pa faterion/ffactorau amgylcheddol dylai ein disgyblion fod yn eu harchwilio?

- Llygredd a'i effaith ar hyd a lled y byd.
- Ailgylchu, sut i arbed egni a phwysigrwydd egni adnewyddadwy.
- Tyfu cnydau a phwysigrwydd prynu'n lleol.
- Cynhesu byd eang a'r effaith ar yr amgylchedd/tirlun lleol.

Beth hoffech chi i'r disgyblion ddysgu am Gymru?

- Traddodiadau, enwogion Cymru a phwysigrwydd yr Iaith Gymraeg.
- Pobl sy'n helpu yn ein gwlad rwan e.e. GIG.
- Yr anthem, diwylliant, traddodiadau Cymreig a phwysigrwydd yr iaith.
- Unrhyw gyfle i ymfalchio yn eu cymreictod a'i defnydd o'r iaith Gymraeg.

# Cwricwlwm i Gymru – Holiadur Staff

## Pa sgiliau ydech chi eisiau i'r plant yn eich dosbarth ddatblygu yn Ysgol Bro Dyfrdwy?

- Personol a chymdeithasol, gwrando, darllen, rhifedd, cymorth cyntaf, creu busnes a choginio.
- Annibynniaeth, dyfalbarhâd hunan-hyder a pharch at eraill.
- Iaith a chyfathrebu hefo'u gilydd yn y Gymraeg, Iechyd a lles.
- Rhifedd, llythrennedd, gweithio'n annibynnol a bod yn uchelgeisiol.
- I fod yn unigolion annibynnol a hyderus, yn gwybod sut i edrych ar ôl eu lles meddyliol a iechyd corfforol, nad oes ganddynt ofn mentro na bod yn uchelgeisiol. Ac i ddysgu ei bod yn iawn gwneud camgymeriadau a'n bod yn dysgu ohonynt.

## Beth ydech chi'n teimlo y gallwn wneud i gefnogi'r plant i fod yn annibynnol, ac yn ddysgwyr uchelgeisiol?

- Datblygu meddylfryd twf y plant.
- Mwy o gyfrifoldebau yn enwedig ym mlwyddyn 6. Modelu iddynt a wedyn gadael iddynt gymryd cyfrifoldeb e.e cynnal clwb amser chwarae i'r cyfnod sylfaen. I fod yn uchelgeisiol, gwobrwyo a pharhau gyda'r annogaeth i lwyddo.
- Rhoi'r gefnogaeth y mae pob unigolyn ei angen, a helpu'r plant i ddatblygu hyder
- Rhoi profiadau iddynt sydd yn magu diddordeb er mwyn iddynt fwynhau a dysgu pethau newydd.
- Eu bod yn trio datrys y broblem yn annibynnol cyn gofyn am help, sicrhau nad ydym yn gwneud gormod drostyn nhw a'u bod yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau i fod yn annibynnol. Annog a bod yn gefnogol wrth iddynt drio pethau newydd a'u dysgu bod rhaid mentro a dyfalbarhau wrth fod yn uchelgeisiol

## Pa agweddau o'r pedwar diben ydech chi'n deimlo sydd angen sylw pellach – oes ganddoch chi syniadau am y ffordd ymlaen?

- Y 4 diben yn gyffredinol drwy gynnal dyddiau arbennig efallai rhywbeth tebyg i "diwrnod dathlu'r diben" ble mae un diben yn cael sylw y diwrnod hwnnw trwy weithgareddau, dathlu llwyddiannau a gwobrwyo.
- Galluog ac uchelgeisiol, dod o hyd i ffyrdd gwahanol iddynt weithio h.y tasgau ymarferol os ydynt yn cael trafferth darllen ac ysgrifennu.
- Dwi'n credu mai yr un uchelgeisiol, galluog yw'r un anoddaf, mae angen meddwl am y 'galluog' yn ofalus. Annog y plant i dderbyn bod ganddynt gryfderau gwahanol a bod pawb yn alluog yn ei ffordd ei hun, angen meddwl "tu allan i'r bocs" hefo'r un yma dwi'n teimlo.

# Cwricwlwm i Gymru - Holiadur Staff

Pa brofiadau mae'r plant yn eich dosbarth yn ei fwynhau fwyaf?

- Profiadau ymarferol sydd yn angenrheidiol i fywyd pob dydd e.e coginio. Mae'r ysgol goedwig hefyd yn ffefryn gan sawl un ac unrhyw weithgaredd i ffwrdd o eistedd wrth fwrdd.
- Cael cyfleoedd i chwarae yn yr ardaloedd.
- Profiadau a chyfleoedd i fod yn annibynnol.
- Ysgol goedwig, gwersi nofio a chodio.
- Maent yn ymateb orau pan maent y tu allan yn yr ysgol goedwig, neu yn gwneud gwaith coed. Maent yn mwynhau garddio ac ymweld â llefydd fel y llyfrgell.

Pa leoliadau, digwyddiadau neu bobl lleol ydech chi'n meddwl y dylai ein disgyblion ddysgu amdanynt, neu ymweld a hwy?

- Mari Jones, Capel Rug, Corwen, Llangollen, Y Bala a busnesau lleol.
- Owain Glyndŵr a phwysigrwydd ei gerflun yng Nghorwen. Braf fyddai edrych ar ddaearyddiaeth lleol gan ddysgu enwau afonydd/nentydd a mynyddoedd cyfagos. Hefyd enwau caeau/ffermydd/tai a tharddiad rhai ohonnynt. Teimlad o berthyn i gymuned.
- Owain Glyndwr, chwedlau lleol, bobl mewn gwahanol swyddi yn dod i siarad efo'r plant, e,e plismon
- pobl mentrus a chreadigol lleol
- Penpigyn, Ifor Williams, Mynd am dro o amgylch y pentref ac edrych ar adeiladau megis yr Eglwys a'r Capel. Fyse yn braf cael pobl lleol i fewn i siarad am sut mae Cynwyd wedi newid dros y blynyddoedd. Yn ogystal â phobl lleol sydd a swyddi diddorol.

Pa ddathliadau dylai ein plant fod yn ymwybodol ohonynt yn eich barn chi?

- Santes Dwynwen, Dewi Sant, Pasg, Nadolig, tywysoges Gwenllian, Owain Glyndŵr, Diolchgarwch, Diwylliant Cymru, Diwrnodau cenedlaethol
- Unrhyw ddathliad sydd yn bwysig i'r Cymry i annog ymdeimlad o ddiwylliant a pherthyn.
- Amrywiaeth o dathliadau o gwmpas y byd
- Dathliadau crefyddol, o bob cred.

# Cwricwlwm i Gymru – Holiadur Staff

Beth hoffech chi i'r disgyblion ddysgu am Gymru?

- Am yr ardal leol, diwylliant Cymru, hanes, busnesau lleol.
- Hanes Cymru, ffigyrau pwysig yn ein hanes, sefyllfa'r iaith Gymraeg a'r gobaith o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- Dysgu am bentrefi, a threfi yng Nghymru.
- Cestyll, lleoedd arbennig a daearyddiaeth Cymru..
- Dysgu hanes y wlad, a pham ei fod yn bwysig i ni ei pharchu a chadw'r iaith yn fyw. Trafod enwogion o Gymru sydd wedi llwyddo yn rhyngwladol. Cerddoriaeth Gymraeg a phobl o Gymru sydd yn gwneud yn dda mewn chwaraeon. Rhywbeth sydd yn mynd i ennyn diddordeb a'u bod yn falch o fod yn Gymry!

YSGOL BRO DYFRDWY

"Rydw i'n credu fod y cwricwlwm newydd yn wych ac yn cynnig gymaint i blant Cymru!"

Pa faterion/ffactorau amgylcheddol dylai ein disgyblion fod yn eu harchwilio?

- Newid hinsawdd a'r amgylchedd lleol.
- Yr afon Ddyfrdwy, dilyn o'r tarddiad i'r aber a sylwi arni pan mae wedi gorlifo ei glannau. Edrych ar orlifdiroedd ac effaith llifogydd a chysidro a yw hyn yn gwaethygu wrth edrych ar Cynhesu Byd Eang. Tyrbinnau gwynt, o blaid/yn erbyn ac ati.
- Natur a bywyd gwyllt a phlannu coed.
- Meddwl sut mae'r pethau ryden ni yn ei wneud i'r blaned yn mynd i effeithol ar y cenedlaethau sydd i ddod.

Oes unrhyw agwedd o'r cwricwlwm i Gymru rydech chi'n dymuno cael cyfle i'w ddatblygu/eisiau hyfforddiant ar ei gyfer?

- Cydweithio gyda ysgolion eraill
- Braf fyddai ymweld âg ysgol sydd yn gweithredu'r cwricwlwm i Gymru i gael gweld arferion da.
- Y 4 diben.
- Creadigol a mentrus, y plant yn mwynhau bod yn greadigol yn y dosbarth a thu allan.
- Agweddau STEM
- Mae'r prosiect gwaith coed gyda Gwe yn wych i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, parhau i ddatblgu yr elfen yma a rhoi cyfle i gymaint o blant a sydd bosib i gael tro.

# Cwricwlwm i Gymru – Holiadur Y Llywodraethwyr

“Credaf ei fod yn bwysig i’r plant gael blas ar fod yn annibynnol a dysgu amrywiaeth o sgiliau angenrheidiol i fywyd pob dydd.”

“Mae lleoliadau lleol yn bwysig i’r plant gael dysgu amdanynt a hefyd i gael y cyfle i ymweld a nhw.”

“Credaf ei fod yn hanfodol i’r plant gael dysgu am hanes Cymru, ei diwylliant a’i phobl gan gynnwys hen hanesion y Mabinogi.”

“Mae cyfleoedd i’r plant ddysgu am amrywiaeth o ddathliadau a chrefyddau eraill o amgylch y byd yn bwysig iawn.”

YSGOL BRO DYFRDWY

# Ein Gweledigaeth

Ein diben yma yn Ysgol Bro Dyfrdwy yw meithrin unigolion cyflawn a dinasyddion hyderus, sy'n barchus o'i gilydd a'r ddaear gan gadw mewn cof ein arwyddair 'Yn y llaw fach, mae'r holl fyd'. Ein dymuniad yw i greu taith addysgol sydd yn llawn cyfleoedd cyfoethog sy'n addas ar gyfer pob dysgwr, ble bynnag eu man cychwyn. Bydd eu taith trwy'r ysgol yn gyfle iddynt gasglu stôr o atgofion a phrofiadau gwerthfawr i'w cadw a'u trysori am oes. Ein cyfrifoldeb yma ym Mro Dyfrdwy yw annog chwilfrydedd, meithrin cymelliant a pharatoi ein plant i fod yn oedolion cyflawn y dyfodol.

Ysgol ardal yw Ysgol Bro Dyfrdwy, ysgol wledig, gymunedol a naturiol Gymraeg. Rydym yn ffodus o fod mewn ardal sydd yn llawn hanes ac rydym am ddathlu hynny ymhob rhan o'n gwaith. Mae rhoi lle blaenllaw i'r Iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n hanes ni fel gwlad yn hanfodol ac wedi'i gwreiddio'n ddwfn ym mywyd pob dydd Ysgol Bro Dyfrdwy. Yma fe weithiwn fel teulu i greu unigolion sydd yn ymfalchio yn eu gwlad, ei hanes hi a'i nodweddion unigryw gyda'r diben o greu Cymry balch.

Un teulu sy'n fentrus ac hapus,

Un freuddwyd annog dysgwyr gwybodus,

Un gobaith, bod pawb yn serennu,

Un ysgol, profiadau i'w trysori.

Dathlwn ein doniau, dathlwn ein hiaith,

Cefnogwn ein gilydd, pob cam o'r daith.

Den y ddraig

# Beth ydi 'Cwricwlwm' yn Ysgol Bro Dyfrdwy?



## Cynghorau'r Ysgol

Mae barn ein disgyblion, a chynghorau'r ysgol yn hynod o bwysig i ni, ac yn flaenllaw yn yr ysgol. Mae gan pob cyngor ddiben y mae nhw'n ei ddatblygu yn gyson yn yr ysgol:

Cyngor Ysgol – cyfrannwyr mentrus, creadigol

Cyngor Eco – dinasyddion egwyddorol, gwybodus

Cyngor Lles- Unigolion iach, hyderus

Siarter iaith- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog

# Cân Bro Dyfrdwy



CÂN YSGOL BRO DYFRDWY

'yn y llaw fach mae'r holl fyd'


Ar ochr afon Ddyfrdwy
Gwelwch ein hysgol fach ni,
Yng nghanol holl hanes Cymru
O Glyndŵr i'r Mabinogi,
Siaradwn Gymraeg bob dydd,
Rhown ein ffydd, rhown ein hymdrech,
Rhown ein calon iddi hi,
Y llaw fach sy'n rhoi y byd i ni.

Bro Dyfrdwy, Bro Dyfrdwy,
Mae croeso i chi,
Bro Dyfrdwy, Bro Dyfrdwy,
Yn ein dwylo mae'r holl fyd
Bro Dyfrdwy, Bro Dyfrdwy,
Mae'n gartref i ni gyd,
Bro Dyfrdwy, hon di'r ysgol,
Hon di'r orau yn y byd.



## Sgiliau cyfannol

Mae datblygu'r sgiliau cyfannol yn rhan bwysig wrth gynllunio meusydd dysgu ein cwricwlwm. Mae'r sgiliau cyfannol yn cefnogi datblygiad y plentyn cyflawn o fewn y chwe maes dysgu, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu plethu'n gyson yn ein cwricwlwm.




Wrth gynllunio ein cwricwlwm, mae'n bwysig meddwl PAM, BETH A SUT er mwyn sicrhau bod yr holl brofiadau sy'n cael eu cynnig, a'r gefnogaeth rydym yn ei ddarparu i'r disgyblion yn cael eu gwneud i bwrpas, yn cael effaith bositif, yn ysbrydoli, ac yn helpu'r dysgwr i symud ymlaen yn ei daith/ei thaith addysg.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am y fframwaith llythrennedd, rhifedd a digidol

## Fframwaith llythrennedd, rhifedd a digidol

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn **sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol** o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu fod rhaid sicrhau cynnydd yn y sgiliau isod ar draws pob maes y cwricwlwm.

**Llythrennedd** : trawsieithu, gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.

**Rhifedd** : hyfedredd mathemategol, y system rif a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau, geometreg - siapiau, gofod a safle ac ystadegau a thebygolrwydd.

**Cymhwysedd digidol:** dinasyddiaeth, rhyngweithio a chydweithio, cynhyrchu â data a meddwl cyfrifiadurol.

## Addysg Cydberthynas a rhywioldeb

Rydym yn helpu'r dysgwyr i feithrin y sgiliau er mwyn datblygu cydberthnasau iach a diogel gyda phobl eraill, yn ogystal a'r gallu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau eu hunain. Byddwn yn helpu dysgwyr i droi at ffynonellau ffeithiol ynghylch eu hiechyd a'u lles rhywiol ac atgenhedlol. Rydym yn cynnig cyfleon i'r dysgwyr ddysgu am bob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod a'u galluogi i adnabod cydberthnasau a sefyllfaoedd anniogel gan eu helpu sut i chwilio am gymorth os oes angen.

# Themâu trawsgwricwlaidd

## Hawliau dynol

Mae pob un o'r pedwar diben yn galluogi dysgwyr i brofi eu hawliau dynol, sydd wedi ei fapio gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Cliciwch yma i agor dolen hwb am ragor o wybodaeth

## Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Cefnogi'r dysgwyr i wneud synnwyr o'r sgiliau a'r wybodaeth y maen nhw'n eu meithrin drwy greu cysylltiadau ag amgylcheddau, profiadau a digwyddiadau a all fod yn fwy cyfarwydd iddynt. Byddwn yn cefnogi ein disgyblion i fod yn ddinasyddion gwybodus, ac egwyddorol, sydd yn cael profiadau fydd yn tanio eu diddordeb yn eu hamgylchedd, ac y byd o'u cwmpas.

## Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Rydym yn cynnig profiadau sydd yn galluogi ein disgyblion i ddysgu am y byd o'u cwmpas, gan gynnwys y byd gwaith. Rydyn ni'n gweld pwysigrwydd mawr mewn gwahodd ymwelwyr i drafod eu profiadau/rhannu gwybodaeth am swyddi sy'n cyd- fynd â themau, a sydd o ddiddordeb i'n plant.


## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn cyfeirio at adnabod a dathlu natur amrywiol grwpiau cymdeithasol a chymunedau.


# Dewch i gyfarfod...

Miri Mentrus
a chreadigol






Iago iach ac
hyderus



Enog egwyddorol
a gwybodus

Undeg uchelgeisiol,
galluog






Dyma agweddau ein cwricwlwm.

Mae mynediad i'r cwricwlwm cyflawn yn hanfodol i'n disgyblion.

Ysbrydoli | Iach | Creadigol | Chwilfrydig | Parchus

Caredig | Hyderus | Mentrus | Gonest

| Ein gwerthoedd | Ein hymddygiad |
|---|---|
| Parch | Mae pawb yn yr ysgol yn unigryw, ac mae barn, a theimladau pawb yn cael eu hystyried a'u parchu. Mae gan bawb lais, ac mae gan bawb bethau gwerthfawr i'w cynnig. |
| Lles a Gofal | Rydym yn ystyried ein hysgol fel math o deulu estynedig – teulu cyfeillgar a hapus, lle mae lles pob disgybl yn flaenllaw. Ceisiwn sicrhau bod yr ysgol yn le diogel a braf, ble mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi. |
| Hapusrwydd a Mwynhad | Rydym yn cefnogi lles ein gilydd, gan sicrhau ein bod yn mwynhau wrth ddysgu. |
| Cymru a Chymreictod | Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru, ac yn ymfalchio yn ein hanes, gan edrych ymlaen at ein dyfodol. |
| Cymuned a Chynefin | Yr ysgol yw calon y gymuned |
| Cefnogi a Chydweithio | Rydym yn barod iawn i gefnogi a chyd-weithio gyda'n gilydd. |
| Dathlu | Rydym yn dathlu doniau pawb, ac yn falch o lwyddiannau ein gilydd |

# 4 Diben Cwricwlwm i Gymru ydy craidd a chalon

sgol Br

**Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:**

- ➢ yn defnyddio ac yn rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a phethau.
- ➢ yn meddwl yn greadigol er mwyn trio eto a datrys problemau.
- ➢ yn gweld cyfle ac yn manteisio arnynt.
- ➢ yn trio pethau anodd a heriol – meddwl gwyrdd.
- ➢ yn arwain ac yn chwarae rôl gwahanol mewn timau gan drio ein gorau glas pob tro.
- ➢ yn rhannu syniadau a theimladau mewn ffyrdd gwahanol e.e. papur, cyfrifiadur, bwrdd gwyn, ipad, Hwb, ysgrifennu, bocs pryderon.
- ➢ yn trio ein gorau glas i helpu pobl eraill i lwyddo.

**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:**

- ➢ yn defnyddio a dod o hyd i wybodaeth i roi barn.
- ➢ yn gwybod beth sy'n digwydd i'r blaned.
- ➢ yn helpu'r blaned, pobl ac anifeiliaid mewn unrhyw ffordd a rhoi ein barn.
- ➢ yn deall ac yn meddwl am yr effaith mae ein dewisiadau ni yn eu cael ar ein bywydau a'r blaned.
- ➢ yn dysgu am yr ardal leol, ein gwlad a'r Byd ddoe, heddiw ac yfory.
- ➢ yn parchu teimladau a barn eraill oherwydd fod pawb yn wahanol.
- ➢ yn dangos ein bod yn barod i wneud Y Byd yn lle gwell.

**Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:**

- ➢ yn gosod sialens i ni ein hunain ac yn hoffi ei wneud.
- ➢ yn defnyddio ein gwybodaeth mewn gwahanol sefyllfaoedd.
- ➢ yn hoffi datrys problemau ac yn gofyn cwestiynau.
- ➢ yn siarad yn hyderus yn Y Gymraeg.
- ➢ yn medru egluro ein syniadau yn glir.
- ➢ yn defnyddio rhif mewn gwahanol lefydd yn gywir.
- ➢ yn defnyddio technoleg yn greadigol i siarad, creu dogfennau a dadansoddi data.
- ➢ yn trafod beth rydym wedi ei ddysgu ac yn gwella ein hunain at y tro nesaf.
- ➢ yn barod i ddysgu pob tro!

**Yn unigolion iach, hyderus sydd:**

- ➢ yn edrych ar ol eu hunain ac eraill.
- ➢ yn meddwl am deimladau eraill, yn bod yn deg gyda phawb a dangos empathi.
- ➢ yn siarad am fod yn iach ac yn gwybod sut i fod yn iach.
- ➢ yn cofio cael hwyl a sbri wrth wneud ymarfer corff a bwyta'n iach.
- ➢ yn bod yn iach, yn heini ac yn mynd amdani.
- ➢ yn meddwl yn ofalus cyn gwneud penderfyniad. Yn cadw'n saff.
- ➢ yn parchu pawb, yn bod yn ffeind ac yn gwneud ffrindiau newydd.
- ➢ yn mynd amdani wrth wynebu pob sialens, yn meddwl yn wyrdd.
- ➢ yn bod yn annibynnol ac yn mynd ati i ddysgu pethau newydd.
- ➢ yn helpu ac yn bod yn rhan o'r gymuned leol.


# Ysgol Goedwig













Wrth gynnal sesiynau Ysgol goedwig rydym yn cefnogi plant i ddatblygu hunan-barch, creadigrwydd, annibyniaeth a hunanhyder yn yr awyr agored dan arweiniad y plant. Yn ogystal, darparwyd profiadau i'r unigolion ddatblygu eu sgiliau corfforol, emosiynol, gwybyddol a chymdeithasol. Mae'r ysgol goedwig yn defnyddio dull cyfannol o ddysgu ac yn cynnig amrywiaeth o gylfleon i ddatrys problemau, cymryd risgiau a chreadigedd yn ogystal â rhai sgiliau penodol (e.e.. clymu clymau, dringo coed, cynnau tân a defnyddio tŵls). Yn yr ysgol goedwig mae'r plant yn profi cariad at natur, trwy chwarae yn rhydd ac archwilio coetir lleol drwy gydol y tymhorau. Byddwn yn defnyddio'r ardal ysgol goedwig a safle'r ysgol a hefyd yn cerdded ar hyd y caeau i'r coedir 'Cuddfan Cymru' sydd ar lwybr yr hen reilffordd.





# Addysgu

## Mae'r 12 egwyddor addysgegol yn cael ei feithrin yn gyson yn Ysgol Bro Dyfrdwy

Creu cyd-destunau dilys.

Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.

Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol.

Hybu cydweithio.

Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus.
Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyrraeddadwy.

Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu

Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol.

Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol.
Ennyn diddordeb

Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben

Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol.

Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu

Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd -llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

# Cynllunio

Wrth gynllunio yn Ysgol Bro Dyfrdwy, rhoddir bwyslais ar gynnig **profiadau dysgu cyfoethog, eang a dwfn** o ansawdd uchel i'n dysgwyr. Golyga hyn roi digon o amser i ddysgwyr feithrin, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau.

Mae hyn yn gosod seiliau cadarn ar gyfer camau nesaf eu dysgu ac yn golygu eu bod yn adeiladu ar eu dysgu a'u cynnydd drwy gydol eu hamser yma.


Rydym hefyd yn cynllunio i sicrhau bod ein profiadau dysgu a'n haddysgu yn datblygu'r **sgiliau** isod sydd eu hangen ar ein dysgwyr i gyflawni'r 4 diben, ac mae llais ein dysgwyr yn allweddol.


**Mwynhau dysgu**

Gweithiwn yn galed yn Ysgol Bro Dyfrdwy i sicrhau :


- bod y profiadau dysgu yn ddiddorol a symbylus
- bod ein haddysgu yn ennyn brwdfrydedd a mwynhad i'n disgyblion.


## Cynllunio Cyfnod Sylfaen





## Cynllunio Cyfnod Allweddol 2





Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn bwysig i ni yn Ysgol Bro Dyfrdwy. Mae cysondeb ethos ymhob dosbarth ar draws yr ysgol yn holl bwysig er mwyn sicrhau amgylchfyd diogel a symbylus i'n dysgwyr allu mentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.

# Sbardun ar ddechrau thema, a'r cwestiwn mawr

Wy pwy?

Taith gerddded- unigolion iach ac hyderus

Y Cywion



Byddwn yn cyflwyno llu o brofiadauu dysgu  ar ffurf Cwestiwn Mawr neu sbardun. Pwrpas hyn ydy i ennyn diddordeb y plant, tanio'r dychymyg, ac annog chwilfrydedd. Rydym yn ymdrechu i gefnogi'r plant i ddatblygu hyder ynddynt eu hunain i lwyddo a goresgyn heriau yn eu dyfodol.

Bydd cynllunio manylach yn digwydd fesul MDaPh neu gyfuniad ohonynt i gefnogi'r trosolwg hwn.  Defnyddir y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Disgrifiadau Dysgu er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr ymhob maes a'u bod yn cael eu herio a'u cefnogi er mwyn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Byddwn yn amrywio ein harddulliau addysgu yn gyson, er mwyn ennyn diddordeb, a chynnig amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i bawb.
Defnyddir strategaethau asesu ffurfiannol yn barhaus  i sicrhau cynnydd dysgwyr yn y dosbarthiadau o ddydd i ddydd a chynhelir cyfarfodydd  proffesiynnol i drafod datblygiad ein disgyblion yn rheolaidd, gan rannu, a chefnogi ein plant yn gyson.

# Asesu a Chynnydd

Mae darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn bwysig.

Bydd yr ysgol yn cyflawni **Dibenion Asesu 'r Cwricwlwm** fel a ganlyn:

**1.Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**

**2. Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser**

**3. Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion**


**4. Tracio cynnydd ein disgyblion er mwyn cefnogi pawb i ddatblygu'n gyson, a sicrhau bod y ddarpariaeth gorau posib yn ei le i bawb.**

Byddwn yn cael cyfarfodydd proffesiynnol i drafod cynnydd ein disgyblion yn gyson.

Rydym yn defnyddio'r **Disgrifiadau Dysgu** ar gyfer bob **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr.

Ni ddefnyddir y rhain fel rhestr o flychau i'w ticio, ond yn hytrach fel arfau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cynnydd ein dysgwyr.

Yn ychwanegol at hyn, **mae egwyddorion cynnydd** sy'n sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser.




Seesaw

Pupil Attitude to Self and School (PASS)

Ensure that the most at risk students do not slip through the net

PASS®


Taith360

Rydym yn defnyddio Taith 360 fel arf asesu a thracio cynnydd ond hefyd i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer cynnydd pellach. Rydym yn defnyddio traciwr GwE yn ogystal er mwyn cael trosolwg o daith ein disgyblion, ac er mwyn gallu tracio cynnydd ein disgyblion. .

# Maes Dysgu a Phrofiad: Iechyd a Lles

Rhaglen Jigso

Cyngor Lles



ioga

Llun Lles

Dewch i goginio

Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes








Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles







Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.








Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles

Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill







# Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llafaredd a Chyfarthrebu

## Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.




Dathlu'r Eisteddfod yn dod i'r Sir.

## Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.






Ymweliadau i'r llyfrgell

## Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.




Ymweliad awdur

## Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.



Cwis Llyfrau Cymraeg.

Creu Llyfrau Llafar Cymraeg.


# Maes Dysgu a Phrofiad: Mathemateg a Rhifedd

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.





Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.





Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.





Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.





# Maes Dysgu a Phrofiad: Dyniaethau

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol








Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.





Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol . Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl .





Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol







# Maes Dysgu a Phrofiad:
# Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.





Prosiect Carw Gwyn















Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg

# Maes Dysgu a Phrofiad:
# Gwyddoniaeth a Thechnoleg




Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau

Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas

Dylunio a thechnoleg
STEM
Techniquest
Planedau
Crumble
Beebot









Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar eu gilydd i oroesi






Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau








Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol


Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol

# Dilyniant: Ieithoedd, Llafaredd a Chyfarthrebu


## Meithrin




## Derbyn





## Blwyddyn 1




## Blwyddyn 2




## Blwyddyn 3





## Blwyddyn 4



## Blwyddyn 5





## Blwyddyn 6




# Dilyniant: Cymhwysedd Digidol


## Meithrin





## Derbyn




## Blwyddyn 1





## Blwyddyn 2




## Blwyddyn 3





## Blwyddyn 4



## Blwyddyn 5




## Blwyddyn 6




# Dilyniant: Mathemateg a Rhifedd


## Meithrin




## Derbyn




## Blwyddyn 1





## Blwyddyn 2




## Blwyddyn 3




## Blwyddyn 4



## Blwyddyn 5



## Blwyddyn 6




YSGOL BRO DYFRDWY
YSGOL BRO
DYFRDWY